Cynllun Gwella 2009 / 2010 - Cam 1 – Adrodd

Ein gweledigaeth: Gwneud ein cymunedau'r llefydd mwyaf diogel i fyw, gweithio ac ymweld â hwy.

Yn dilyn diwedd y flwyddyn yr ydym yn adrodd arni, 2008/09, rydym yn adolygu ac yn adlewyrchu ar rai o lwyddiannau Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

Ddechrau'r flwyddyn, fe wnaethom osod ein hamcanion corfforaethol blynyddol sy'n adlewyrchu blaenoriaethau'r sefydliad ac sy'n cefnogi gweledigaeth a chenhadaeth Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

A ydym ni wedi cyflawni ein blaenoriaethau ar gyfer 2008/09?

Llynedd roedd gennym 17 amcan corfforaethol, yn cefnogi'r chwe thema strategol. Mae adolygiadau o'n cynlluniau busnes yn cadarnhau ein bod wedi cyflawni'r rhan fwyaf o'r amcanion a wnaethom osod. Bydd manylion llawn yn ein Cynllun Gwella, a fydd yn cael ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Hydref.

Mae rhai o'n llwyddiannau'n cynnwys:-

- Ad-drefnu swyddogaethau cymorth a rheoli'r gwasanaeth o leoliadau gwahanol yn ardal y gwasanaeth i Bencadlys canolog.
- Cynnal Her Ryddhau'r Byd 2008 (Achub Byd Cymru) a digwyddiad Diogelwch Cymunedol Gorau Glas yng Nghaerdydd ar yr un pryd. Roedd Achub Byd Cymru yn gystadleuaeth fyd-eang â heriau achub unigol a ddenodd ymladdwyr tân o bob cwr o'r byd. Denodd Digwyddiad Diogelwch Cymunedol Gorau Glas dros 6,000 o bobl i Gastell Caerdydd gan ddod â Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ynghyd â'i asiantaethau partner i rannu arferion gorau a hyrwyddo negeseuon diogelwch cymunedol i'r cyhoedd.
- Cwblhau cytundeb yr Awdurdod Tân i sicrhau bod pob deiliad swydd perthnasol wedi derbyn gwiriad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol.
- Mae rhoi ein gorsafoedd 'Yng Nghalon y Gymuned' wedi bod o fudd. Mae ymgysylltu cymunedol wedi mynd o nerth i nerth. Mae'r rhyngweithio cynyddol hyn, a lefel uchel o waith atal rhagweithiol wedi achosi lleihad yn y nifer o danau yr ydym wedi cael ein galw atynt. Mae hyn yn arddangos lleihad sylweddol o ran risg yn ein cymunedau.
- Mae'r grŵp prosiect Tanau Gwyllt wedi datblygu ffrydiau gwaith addysgu a gorfodi. Mae hyfforddiant gweithredol Tanau Gwyllt wedi dechrau a bydd yn cyd-fynd â chaffael cerbydau ag offer yn 2009/10.
- Mae Uned Achub Technegol wedi'i sefydlu ym Malpas gan ddarparu cyfleuster achub llawer gwell, uniongyrchol, yn barhaus.
- Datblygu'r porth ystadegau ar gyfer y cyhoedd ar y rhyngrwyd i alluogi ein cymunedau i weld sut yr ydym yn perfformio mewn amser real.
- Gwnaed cynnydd sylweddol o ran gwella ymwybyddiaeth ag atebolrwydd i Gynllun Iaith Gymraeg y Gwasanaeth.
- Parhaodd y nifer o bobl sy'n berchen larymau mwg i gynyddu yn ystod 08/09.
- Mae'r nifer o danau mewn eiddo annomestig yn parhau i leihau. Mae tanau bwriadol mewn ysgolion a thanau bwriadol mewn eiddo eraill ar lefel isel. Mae hyn yn arddangos yr ymrwymiad parhaus llwyddiannus tuag at leihau perygl o fewn Diogelwch Tân.
- Rydym wedi darparu rhaglenni cynhwysiad a gwyro helaeth i bobl ifanc, gan achosi newidiadau i ymddygiad gwrthgymdeithasol tân ymhlith pobl ifanc a lleihau risg i'n cymunedau.

Amcanion 2009/2010

Lleihau marwolaethau ac anafiadau oherwydd tanau a Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd

- Hyrwyddo gosod taenellwyr dŵr ym mhob adeilad newydd sy'n cael ei adeiladu.
- Targedu'r bobl sy'n wynebu'r risg mwyaf o ran tân mewn eiddo domestig.
- Cefnogi'r prosiect tanau gwyllt gydag adnoddau ar gyfer pileri addysgu a gorfodi. Penodi staff i ddelio gyda llosgi bwriadol glaswellt o fewn swyddogaeth troseddu tân ac addysgu Diogelwch Cymunedol a Phartneriaethau. Gwerthuso effeithiolrwydd gweithgareddau Troseddu Tân a Gwasanaethau Plant yn erbyn cynllun gweithredu Tanau Gwyllt.
- Sicrhau bod gan y Gwasanaeth y proffiliau risg diweddaraf ar gyfer ein cymunedau er mwyn gallu targedu gweithgareddau.
- Canfod a datblygu opsiynau ar gyfer gwella gwasanaeth tân ac ymgysylltu cymunedol mewn ardaloedd trefol drwy'r Cytundeb System Dyletswydd Rhan Amser yn unol â'r Cynllun Lleihau Risg.

Creu sefydliad sy'n ymarfer ein gwerthoedd

- Datblygu Gallu Arweinyddiaeth - ymysg uwch reolwyr ac aelodau etholedig (gan gynnwys denu arweinwyr effeithiol i mewn i Wasanaethau Tân ac Achub o sectorau eraill.)
- Datblygu'r Sefydliad - cyflawni rhagoriaeth mewn pobl a rheoli perfformiad, partneriaethau a darpariaeth effeithiol o wasanaethau.
- Bydd y 3 Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru yn cydweithio i ganfod a datblygu opsiynau cytundebol i wella argaeledd System Dyletswydd Rhan Amser ar draws y wlad.
- Creu diwylliant lle mae personél yn gwerthfawrogi a deall eu rôl o ran sicrhau bod darpariaeth gwasanaeth i'r cyhoedd o'r safon uchaf, wrth barchu a deall gwerthoedd y Gwasanaeth.

Rhoi'r Cynllun Rheoli Asedau ar waith

- Bydd y gwasanaeth yn sicrhau'r defnydd gorau o asedau corfforol y Sefydliad drwy fabwysiadu a rhoi cynllun rheoli asedau hirdymor ar waith. Mae Grŵp Llywio Rheoli Asedau yn rheoli'r Cynllun hwn.

Ailstrwythuro ein prosesau busnes

- Datblygu sgiliau a gallu'r gweithlu - ar draws pob ardal o fewn y Gwasanaeth Tân ac Achub, gan gynnwys technegol, arbenigol a gwasanaethau cymorth, rheolaeth a'r gweithlu ar y rheng flaen.
- Ail-leoli'r Adran Gwasanaethau Fflyd a Pheirianneg i safle'r Pencadlys newydd, gyda'r aflonyddwch lleiaf i'r Sefydliad. Datblygu'r safle newydd drwy; defnydd gorau o offer modern a rhoi sylw priodol i ymarferion gwaith modern, lechyd a Diogelwch, cynllunio cerbydau modern, effeithiolrwydd cost a sicrhau adleoliad di-dor o weithgareddau'r adran.
- Yn dilyn adleoli i'r pencadlys newydd, adolygu'r prosesau busnes i ganfod gwelliannau ac effeithlonrwydd. Annog ymglymiad staff o ran canfod gwelliannau parhaus.

Lleihau effaith amgylcheddol gweithgareddau gweithredol

- Datblygu gallu cynyddol i liniaru effeithiau digwyddiadau ar yr amgylchedd. Cynnal cynrychiolaeth ar grwpiau Strategol Cenedlaethol. Datblygu cyswllt lleol ar bob lefel gorchymyn (strategol/tactegol/gweithredol).
- Canfod cyfleoedd i leihau effaith amgylcheddol gweithrediadau'r gwasanaeth tân, bydd cynaladwyedd yn cael ei gynnwys yn y broses adroddiad.
- Lleihau effaith amgylcheddol gweithrediadau Gorsafoedd a gwella cynaladwyedd drwy ddefnyddio Pencampwyr Gwyrdd.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'r **Uned Rheoli Perfformiad** ar **01443 232000** neu e-bostio **performance@southwales-fire.gov.uk**
neu drwy'r post at **Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant, CF72 8LX.**

South Wales
Fire and Rescue Service

Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru

CODI YMWYBYDDIAETH - LLEIHAU PERYGL